
# Pecyn Cymorth Bws Cerdded Teithiau Iach



Walk Wheel Cycle Trust Cymru

Ar gyfer ein hiechyd.
Ein lles.
Ein byd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Beth yw Bws Cerdded?

A Bws cerdded yw pan fydd grŵp o blant, teuluoedd a gwirfoddolwyr sy'n oedolion yn cerdded i'r ysgol gyda'i gilydd ar hyd llwybr wedi'i gynllunio. Fel bws cyffredin, mae ganddo "arosfannau" penodol lle gall mwy o gerddwyr ymuno. Mae'n ffordd syml, hwyliog ac ecogyfeillgar i ddechrau'r diwrnod ac adeiladu cerdded i mewn i'ch trefn arferol.

Gall gwirfoddolwyr fod yn unrhyw un yng nghymuned yr ysgol – yn rhieni, gofalwyr, staff, neu neiniau a theidiau. Mae pob bws cerdded yn edrych ychydig yn wahanol, ac mae'r pecyn cymorth hwn yn cynorthwyo pob math o ysgolion gyda llwybr cerdded diogel, boed y daith gerdded yn ychydig funudau neu'n gilomedr neu ddau.

Fel arfer, mae'r bws cerdded yn cyfarfod mewn man canolog megis parc, canolfan gymunedol, neu dirnod lleol—rhywle sy'n rhwydd ac yn boblogaidd. O'r fan honno, dylai'r llwybr ddilyn llwybrau diogel a cheisio cynnwys cymaint o bobl â phosibl. Bydd y pecyn cymorth yn eich helpu i ystyried a phenderfynu ar y llwybr gorau a mwyaf diogel ar gyfer eich ysgol a'ch cymuned. Mae hefyd yn bwysig meddwl am oedran ac anghenion hygyrchedd y grŵp. Dylai'r cyflymder bob amser gyd-fynd â'r cerddwr arafaf, a ni ddylid gadael neb ar ôl – oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.

## Mathau o Fysiau Cerdded

**Bws cerdded sy'n danfon plant** yw un lle mae plant yn cael eu casglu mewn arosfannau dynodedig ac yn cerdded i'r ysgol heb eu rhieni. Mae'n ffordd wych o arbed amser i deuluoedd, ond mae'n dod â chyfrifoldebau ychwanegol. Mae angen gwiriadau DBS, rhywun gyda chymhwyster cymorth cyntaf, a chofrestr ar wirfoddolwyr i olrhain presenoldeb – gan eu bod yn gyfrifol am y plant nes iddynt gyrraedd yr ysgol. Efallai yr hoffech ystyried yswiriant ar gyfer y math hwn o fws cerdded.

Mae **bws cerdded teuluol neu gymunedol** yn cynnwys rhieni neu warcheidwaid yn cerdded gyda'u plant fel rhan o'r bws. Mae gan wirfoddolwyr fwy o gymorth gan oedolion, felly mae nhw'n gyfrifol am ddiogelwch cyffredinol y grŵp, nid am blant unigol.

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar fysiau cerdded teuluol/cymunedol. Os oes gennych ddiddordeb mewn sefydlu fersiwn danfon plant, mae croeso i chi gysylltu â ni — rydym yn hapus i helpu: schoolswales@walkwheelcycletrust.org.uk

## Pam Bws Cerdded

**Iechyd a lles:** Mae cerdded yn ymarfer corff gwych ar gyfer pob oed ac yn helpu i feithrin arferion iach.

**Addysgiadol:** Mae cerdded gydag oedolion cyfrifol yn helpu i feithrin ymwybyddiaeth hanfodol y plant o ddiogelwch ar y ffyrdd. Yn ogystal, mae plant yn cael amser i fod yn yr awyr agored yn eu cymuned leol, wedi'u hamgylchynu gan olygfeydd, arogleuon a synau newydd bob bore.

**Cymdeithasol:** Mae'n cynnig cyfle gwych i blant ac oedolion i roi'r byd yn ei le ar eu ffordd i'r ysgol, cael seibiant o'r sgrin a bod yn eu cymuned leol.

**Meithrin cymuned:** Mae grŵp o wirfoddolwyr sy'n rhannu cyfrifoldeb yn helpu i gynnal cymuned ysgol gref.

**Er lles ein hamgylchedd:** Mae bws cerdded yn ffordd wych o chwarae eich rhan dros yr amgylchedd. Mae'n gynaliadwy ac yn dileu llygryddion cerbydau a thagfeydd o gatiau'r ysgol.

**Economaidd:** Mae cerdded yn rhad ac am ddim! Does dim angen tanwydd na thocyn bws.

# Dechrau arni

**Pan fyddwch chi'n dechrau cynllunio eich bws cerdded mae yna bethau y dylech chi eu hystyried i ddechrau.**

## Rolau

Mae bws cerdded cymunedol yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Y rolau allweddol sydd eu hangen i gadw'r grŵp yn ddiogel yw:

**Arweinydd** – Bydd yr arweinydd yn cerdded ar y blaen, yn gosod y cyflymder, yn penderfynu ar bwyntiau cychwyn/gorffen, yn cynnal asesiadau risg dynamig, ac yn cyfrif disgyblion i mewn ac allan ar y dechrau a'r diwedd.

**Unigolyn ar y cefn** – Bydd yn aros ar y cefn i sicrhau bod y grŵp yn aros gyda'i gilydd, yn cyfrif gyda'r arweinydd, ac yn siarad â theuluoedd sydd angen gadael ar ganol y daith.

**Tywyswr (tywyswyr) cerdded** – Bydd yn helpu i gadw'r grŵp gyda'i gilydd, yn cerdded ar ochr allanol y palmant ger y ffordd er diogelwch, yn cynorthwyo mewn mannau croesi'r ffordd, ac yn hysbysu'r arweinydd/unigolyn ar y cefn os bydd unrhyw deulu'n gadael yn gynnar. Efallai y bydd angen tywyswyr ychwanegol ar grwpiau mwy.

**Cyswllt Ysgol** – Unigolyn wedi'i enwi yn swyddfa'r ysgol a all gyfathrebu â'r bws cerdded os oes angen.

Gallwch recriwtio gwirfoddolwyr a chreu rota. Gwnewch yn siŵr bod cyfrifoldebau'n glir, gan gynnwys pwy sy'n dod ag unrhyw eitemau gofynnol. Atgoffwch rieni mai nhw sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddiogelwch eu plant ar y bws cerdded. Mae rhai ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i rieni sy'n gwirfoddoli gael gwiriadau DBS – gwiriwch gyda'ch ysgol i gadarnhau, mae'n rhad ac am ddim i wirfoddolwyr gael gwiriadau DBS.

## Amserlen

Meddyliwch faint o amser fydd eich taith gerdded yn ei gymryd a chynlluniwch eich amseroedd o amgylch hyn. Ystyriwch wahanol gyflymder cerdded ac olwyno wrth gynllunio. Cytunwch ar amseroedd gadael yr arosfannau bysiau a chadwch atynt. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y bws yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd.

**Awgrym da**

*Dewch ag ymbarél ar gyfer glaw neu haul – ac os bydd pawb yn ymuno, gallwch greu taith gerdded "lindys" hwyliog ar thema ymbarél!*

## Dillad

Atgoffwch bawb i wisgo dillad ac esgidiau addas ar gyfer pob tywydd. Hetiau haul ac eli haul yn yr heulwen, dillad ac esgidiau cynnes sy'n dal dŵr yn y gaeaf.

Bydd angen i chi fod â rhyw ffordd o amlygu'r oedolion sydd â rôl gyfrifol yn y bws cerdded, bydd hyn yn helpu i'w gwneud yn weladwy i bawb. Efallai siacedi llachar, hetiau lliw neu ymbarelau.

Beth am wneud y bws yn hwyl gyda themâu bws cerdded a gall yr arweinwyr ymuno yn yr hwyl? Er enghraifft, hetiau Siôn Corn cyn y gwyliau Nadolig.

## Cyfathrebu

Gallwch rannu gyda chymuned eich ysgol yn y ffordd sydd hawsaf i chi. Gallai fod yng nghylchlythyr yr ysgol, posteri neu hyd yn oed sefydlu grŵp WhatsApp. Chi fydd yn gwybod orau sut mae eich ysgol yn cyfathrebu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o rybudd ymlaen llaw ac yn atgoffa'r diwrnod cynt.

# Cynllunio llwybrau




Cynllunio llwybr yw darganfod y ffordd orau o fynd o un lle i'r llall gan ystyried llawer o ffactorau a sefyllfaoedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cerdded gyda grŵp gan fod yr anghenion a'r lle sydd ei angen ar gyfer grŵp mwy yn wahanol i gerdded ar eich pen eich hun. Wrth gynllunio eich llwybr bydd angen i chi gynnal asesiad risg. Mae templedi ar gael yng nghefn y canllaw hwn.

## Mapio'ch llwybr

Defnyddiwch fapiau i gynllunio'ch llwybr yn gyntaf. Efallai nad y llwybr byrraf yw'r un mwyaf addas. Ar ôl i chi fapio'r llwybr ar bapur, mae'n bryd ei fapio'n bersonol. Aseswch y llwybr ar yr adeg o'r dydd y byddwch chi'n ei gerdded, os yw'n bosibl, er mwyn cael syniad o'r amodau. Yn ystod eich sesiwn mapio, mae hwn yn amser gwych i ystyried mannau croesi a mathau o balmentydd.

## Pethau i'w hystyried wrth gynllunio'ch llwybr.

### Man cychwyn

Mae dewis man cychwyn fel cam cyntaf eich bws cerdded yn bwysig. Meddyliwch am ddod o hyd i le digon mawr i bobl ymgynnull yn ddiogel. Mae parciau neu siopau neu ganolfannau cymunedol gyda phalmant mwy yn rhai awgrymiadau. Meddyliwch a oes opsiwn dan do ar gyfer tywydd gwlyb fel lle i aros, byddai hyd yn oed safle bws dan do yn gwneud y tro.

### Mannau croesi

Mae cynllunio eich mannau croesi ar eich llwybr yn bwysig. Bydd cael man croesi dynodedig yn caniatáu i chi groesi'n fwy diogel ac yn haws fel grŵp. Wrth edrych ar eich llwybrau, ystyriwch a oes unrhyw fannau croesi sy'n fwy diogel – fel croesfannau a reolir gan oleuadau traffig, croesfannau sydd wedi'u rhannu'n ddwy ran neu groesfannau sebra. Os oes rhai, defnyddiwch y rhain.

Dylai bod gennych gynllun a gweithdrefn ar waith ar gyfer mannau croesi. Ceisiwch osgoi ardal lle mae llawer o draffig neu geir wedi'u parcio. Ceisiwch ddod o hyd i ardaloedd gyda chyrbau is i wneud yn siŵr bod man croesi yn addas ar gyfer olwyno, gan gynnwys pramiau a sgwteri.

### Dewisiadau ffyrdd

Bydd ffyrdd â therfynau cyflymder is, 20mya neu 30mya, yn fwy diogel ac yn haws i'w croesi. Ceisiwch osgoi ffyrdd cyflymach os yw'n bosibl.

### Palmant

Dewiswch ffyrdd gyda phalmentydd lletach neu lwybrau defnydd a rennir yn ddelfrydol. Gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u goleuo'n dda gyda goleuadau stryd. Os ydych chi'n defnyddio strydoedd preswyl ceisiwch osgoi ardaloedd lle mae llawer o geir yn parcio ar y palmant. Os yw'n bosibl, dylid osgoi palmentydd cul a mannau llawn tyllau fel bod y grŵp yn fwy diogel.

### Llwybrau awyr glân

Manteisiwch i'r eithaf ar ardaloedd di-draffig neu lwybrau traffig tawelach pryd bynnag y bo modd. Er enghraifft, llwybrau trwy ardaloedd preswyl neu barc. Byddai'r rhain yn fwy diogel ac yn dawelach o ran traffig ac yn cynnwys llai o lygredd aer.

# Beth i'w wneud ar y diwrnod



## Rheoli'r grŵp

Cadwch y grŵp gyda'i gilydd ar gyfer y daith gerdded. **Ni ddylai neb fod o flaen yr arweinydd, a neb y tu ôl i'r unigolyn ar y cefn.**

Dylai tîm cymorth y bws cerdded fod yn cerdded ar ochr y palmant pan fo'n bosibl, gofynnwch i rieni wneud hyn hefyd.

Gwnewch yn siŵr bod gennych chi ddigon o dîm cymorth wedi'i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y daith gerdded, a chael cynllun wrth gefn rhag ofn nad oes gennych chi ddigon o gymorth. Gofynnwch i rieni am gymorth o bosibl os yw'n fws cerdded teuluol.

## Tywydd – Cynlluniau wrth gefn

Dylid cael cynllun ar waith os bydd y tywydd yn rhy eithafol fel bod angen ei ganslo, fel gwyntoedd cryfion iawn a thywydd stormus. Sut fyddwch chi'n rhoi gwybod i'r rhieni? Awgrymwn eich bod chi'n adolygu'r tywydd y diwrnod cynt ac yn anfon neges.

**Cofiwch-**

*Mae rheolau'r ffordd fawr yn dweud bod gan gerddwyr hawl tramwy wrth groesi cyffordd.*

*Dylem fod yn gwrtais tuag at ddefnyddwyr eraill y llwybrau – rhannwch yn ofalus.*

## Amser

Penderfynwch ar eich amseroedd a chadw atynt. Trefnwch amser yr ydych yn cyfarfod ac amser gadael fel bod rhieni'n cyrraedd mewn da bryd.

## Croesfannau

Wrth groesi'r ffordd, gwnewch yn siŵr bod cynllun ar waith gyda thîm cymorth y bws cerdded: Bydd yr arweinydd yn asesu'r ardal yn gyntaf ac yn cadw'r grŵp gyda'i gilydd nes bod digon o gymorth i ddechrau croesi. Os yw'n ffordd brysur, chwiliwch am fwlch diogel yn y traffig a cheisiwch groesi'n ddiogel mewn un grŵp parhaus os yw'n bosibl. Peidiwch â rhuthro, gwnewch yn siŵr y gall disgyblion groesi'n ddigynnwrf.

Os oes angen i chi groesi mewn grwpiau llai, yna gofynnwch i dîm cymorth y bws cerdded gynorthwyo'r groesfan os yw'r grŵp yn cael ei rannu, gyda thywyswr yn gweithredu fel arweinydd dros dro. Dylai'r unigolyn ar y cefn aros ar y cefn gyda disgyblion sy'n aros i groesi a'r arweinydd i aros ar yr ochr arall gyda disgyblion sydd wedi croesi. Dylid ailddechrau'r bws cerdded pan fydd digon o dîm cymorth i barhau'n ddiogel yn unig, os oes angen i chi groesi mewn grwpiau. Atgoffwch y cyfranogwyr i wirio bod y ffordd yn glir drostyn nhw eu hunain.

## Gadael

Wrth adael y man cychwyn a phob arhosfan:

- Cyfrwch y disgyblion ar y daith gerdded yn gyflym
- Atgoffwch y cyfranogwyr i aros gyda'i gilydd ac o flaen yr unigolyn sydd ar y cefn a thu ôl i'r arweinydd.

## Cyrraedd


Wrth gyrraedd yr ysgol:

- Cymerwch ofal ychwanegol o geir o amgylch yr ysgol. Gwnewch yn siŵr bod y grŵp yn aros gyda'i gilydd gyda'r holl gerddwyr ychwanegol o gwmpas.
- Cytunwch ar fynedfa ar gyfer y bws cerdded – efallai y gallwch ddefnyddio mynedfa ar wahân os oes gennych un.
- Cyfrwch y cyfranogwyr.
- Diolchwch i'r teuluoedd am gymryd rhan ac am gymorth yr oedolion.


# Enghraifft: Asesiad risg a chynllun llwybr

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r llwybr | Bws cerdded o'r parc ar hyd strydoedd dawel, heibio'r siopau ac i'r ysgol | Dyddiad(au) neu ddiwrnod cerdded | Dydd Mercher cyntaf y mis. | | | |
| Lleoliad ac amser cychwyn | Y Parc 8.20 | Lleoliad ac amser gorffen | Yr Ysgol 8.45 | | | |
| Mannau croesi | 1.Heol Smith,<br>2. Y groes<br>3. Croesfan sebra ger y siopau. | Mannau stopio | Arhosfan 1: Siopau | Amser **8.30** | Arhosfan 2: AMH | Amser |

Cofiwch gynnwys map o'r llwybr wedi'i anodi â pheryglon y llwybr a nodwyd a'r mesurau rheoli i'w rhoi ar waith. Cofiwch gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n berthnasol i'r bws cerdded hwn. Efallai yr hoffech chi gael map tudalen lawn.



1. Lleoliad cychwyn. Yn y maes parcio ger y parc. Mae'r daith gerdded yn parhau drwy'r parc.
2. Man croesi ar Heol Smith.
3. Man croesi ger y siopau gan ddefnyddio croesfan sebra. Dyma'r ail arhosfan a lle gall cyfranogwyr eraill ymuno â'r bws.
4. Man croesi terfynol. Mae hwn yn uwch i fyny'r gyffordd i ffwrdd o'r stryd brysur y tu allan i'r ysgol.




| Lleoliad | Perygl | Rheolaethau ychwanegol i'w rhoi ar waith |
|---|---|---|
| Yn Stop 1 ger y siopau | Gwrthdrawiad rhwng cerbyd/cerddwr gyda photensial am anaf difrifol. | Dylech sicrhau bod gennych fan aros a chyfarfod cytunedig ar gyfer y man casglu. Oedolion i oruchwylio plant. |
| Ar hyd y palmant | Agosrwydd at gŵn yn cael eu cerdded. | Eglurwch sut i ymddwyn os bydd ci yn agosáu at y grŵp. |
| Croesfan ffordd | Gwrthdrawiad cerbyd/cerddwr gyda photensial am anaf difrifol. | Cadwch at y palmant a bydd oedolion yn cynorthwyo gyda chroesfannau ffyrdd mewn grwpiau llai os oes angen. |
| **Cynllun wrth gefn:** Mewn tywydd gwlyb gall disgyblion aros ger mynedfa'r siop. Mewn tywydd eithafol, bydd y rhagolygon yn cael eu hadolygu a bydd y daith gerdded yn cael ei chanslo ymlaen llaw. | | |

| Asesiad a chynllun wedi'u cwblhau gan. | | | |
|---|---|---|---|
| Enw | Pencampwr | Dyddiad | 01/01/2026 |
| Dyddiad yr Adolygiad: 01/01/2027 | | | |

# Rhestr wirio

## Cynllunio

Mae'r llwybr wedi'i gerdded ymlaen llaw i nodi mannau croesi ac wedi'i asesu am unrhyw beryglon.

A yw'r Asesiad Risg a'r cynllun wedi'u cwblhau a'u rhannu ag eraill?

Nodyn atgoffa wedi'u hanfon allan gydag amser, lleoliad a dyddiad y digwyddiad?

A oes gennych chi ddigon o staff/gwirfoddolwyr ar gyfer y digwyddiad? Cofiwch fod teuluoedd yn gyfrifol am eu plant, mae'r tywyswyr yno i reoli'r grŵp.

**Awgrym da**

*Ystyriwch ychwanegu rhai syniadau ychwanegol all fod yn hwyl ar gyfer yr un nesaf. Mae rhai syniadau yng nghefn y canllaw hwn.*

## Ar y diwrnod

Mae'r tywydd wedi cael ei wirio.

Rolau wedi'u neilltuo i'r gwirfoddolwyr a'r staff.

Cyfrif nifer y cyfranogwyr.

Arweinydd cerdded i asesu'r llwybr yn ddynamig.

## Ar ôl y Bws Cerdded

Adolygwch y daith gerdded, gofynnwch am adborth gan deuluoedd.

A oedd unrhyw ddigwyddiadau y mae angen eu cofnodi?

A yw'r amseru'n gweithio'n dda neu a oes angen addasu'r amser?

Lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol neu luniau yng nghylchlythyr ysgol.

**Cynllunio'r un nesaf!**

**Hyrwyddo eich bws**

Rhowch wybod i'r gymuned, gwahoddwch gynghorwyr lleol, yr awdurdod lleol. Rhannwch gyda balchder a gadewch i'r wasg a'r gorsafoedd radio wybod.

## Cysylltiadau defnyddiol

**Cysylltiadau allweddol :** Rhif ffôn cyswllt yr ysgol, yr arweinydd a rhifau ffôn yr unigolyn sydd ar y cefn er mwyn cyfathrebu'n hawdd. Ar gyfer bysiau cerdded rheolaidd, gall radio symudol helpu i gadw mewn cysylltiad.

**Cymorth Brys:** Ffoniwch 999 mewn argyfwng a ffoniwch 101 ar gyfer materion yr heddlu nad ydynt yn argyfwng.

**Tîm Diogelwch Ffyrdd yr Awdurdod Lleol:** Efallai y byddant yn gallu cynnig rhywfaint o gefnogaeth a chymorth.





# Syniadau Difyr ar gyfer Bws Cerdded

## Taith gerdded yr wyddor

Fel grŵp, penderfynwch ar un llythyren o'r wyddor, neu ewch drwy'r wyddor o A i Y. Beth am weld a allwch ddod o hyd i rywbeth sy'n dechrau gyda'r llythyren honno, neu gynifer o bethau ag y gallwch sy'n dechrau gyda'r llythyren honno os dewiswch un llythyren. Er enghraifft, os dewiswch y llythyren B, gallech chwilio am – Beic, Blodyn, neu Bws. Os ydych chi'n gweithio eich ffordd drwy'r wyddor, gallech ddechrau gydag A am Aderyn, B am Blodyn, C am Ci, a gweld pa mor bell y gallwch chi fynd drwy'r wyddor ar eich taith gerdded.

## Cwricwlwm

Gallwch gysylltu'r cwricwlwm â'ch bws cerdded gyda sialens ar y daith gerdded. Mae gennym ganllawiau a sialensiau i helpu, y gellir eu lawrlwytho am ddim.

**Enghreifftiau:**

- Canfod rhifau – allwch chi weld y rhifau 1 – 10 ar eich taith gerdded.
- Sialens siapiau – gweld siapiau.
- Sialens – 'Beth wela' i gyda'n llygaid bach i' – chwilio am eitemau penodol.

**Awgrym defnyddiol**

*Os yw'n llythyren anodd fel W, pam na wnewch chi chwilio am rywbeth siâp y llythyren?*

## Taith gerdded lliwiau

Ar gyfer taith gerdded lliwiau, dewiswch liw y byddwch chi'n canolbwyntio arno drwy gydol y daith gerdded.

Ar eich taith gerdded, chwiliwch am gynifer o enghreifftiau â phosibl o'ch lliw dewisol. Gallai fod ar y ddaear, yn yr awyr, neu wrth fynd heibio. Mae taith gerdded lliwiau yn annog disgyblion i sylwi ar eu hamgylchedd ac efallai sylwi ar bethau na fyddent fel arfer yn eu gweld.

*Mae taith gerdded lliwiau yn eich helpu i fod yn fwy ymwybodol a phresennol ar eich taith gerdded. Mae hefyd yn annog creadigrwydd, gan helpu disgyblion i edrych ar bethau'n wahanol.*

## Gwisgo i fyny

Gallwch gael themâu lle mae pawb yn gwisgo i fyny. Gallwch gysylltu'r rhain â diwrnodau lle nad yw'r plant yn gwisgo gwisg ysgol.

Dyma rai enghreifftiau:


- Byddwch yn Ddisglair Byddwch yn Weladwy – Gwisgwch ddillad llachar ar gyfer wythnos diogelwch ffyrdd.
- Hetiau Siôn Corn a siwmperi Nadolig – diwrnod siwmper Nadolig.
- Clustiau Pudsey / trwynau coch.
- Taith gerdded lliwiau pan fydd pawb yn gwisgo'r un lliw.
- Taith gerdded chwaraeon pan fydd pawb yn gwisgo eu hoff ddillad chwaraeon.

## Heriau tymhorol

Yn y gwanwyn a'r haf, gallech edrych ar y blodau sy'n blodeuo, trychfilod ac arwyddion eraill o fywyd gwyllt. Er enghraifft, malwen neu res o forgrug yn croesi'r llwybr.

Yn yr hydref, gallech chi gael helfa hydrefol a dod o hyd i ddail a hadau ar y llawr.

Yn y gaeaf, gallech chi fynd am dro mewn welintons a sblasio mewn pyllau dŵr. Ar ddiwrnodau rhewllyd, gallwch chi chwilio am eich anadl a cheisio bod yn ddraig fawr sy'n anadlu tân.



# Asesiad risg a chynllun llwybr

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r llwybr | | Dyddiad(au) neu ddiwrnod cerdded | Cofnodwch amlder a gynlluniwyd: E.e. unwaith y mis | | | |
| Lleoliad ac amser cychwyn | | Lleoliad ac amser gorffen | | | | |
| Mannau croesi | | Mannau stopio | Arhosfan 1 | Amser | Arhosfan 2 | Amser |

| Lleoliad | Perygl | Rheolaethau ychwanegol i'w rhoi ar waith |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| Cynllun wrth gefn: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Asesiad a chynllun wedi'u cwblhau gan. | | | |
| Enw | | Dyddiad | |
| Dyddiad yr Adolygiad: | | | |



Swyddfa gofrestredig/Registered Office: Walk Wheel Cycle Trust, 2 Cathedral Square, College Green, Bryste/Bristol, BS1 5DD
Bryste/Bristol: 0117 926 8893. Belffast/Belfast: 028 9043 4569. Caerdydd/Cardiff: 029 2065 0602.
Caeredin/Edinburgh: 0131 346 1384. Llundain/London: 0207 017 2350
Mae Walk Wheel Cycle Trust yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (rhif 326550), Yr Alban (SC039263) a Gweriniaeth Iwerddon (20206824)
Walk Wheel Cycle Trust is a registered charity in England and Cymru (no. 326550), Scotland (SC039263) and Republic of Ireland (20206824)

© Walk Wheel Cycle Trust August 2026
© Walk Wheel Cycle Trust Awst 2026